Department for Digital, Culture, Media & Sport

Department for Digital, Culture, Media & Sport
GIGABIT BROADBAND VOUCHER SCHEME

Telerau ac Amodau Buddiolwyr

Cynllun Taleb Band Eang Gigadid

24 Mehefin 2020

Fersiwn 5.3

Telerau ac Amodau

Mae'r telerau ac amodau hyn (gan gynnwys Atodlenni 1 a 2) yn berthnasol i **Dalebau Band Eang Gigadid** a gynigir i fuddiolwyr o dan y Cynllun Talebau Band Eang Gigadid (y **Cynllun**). Yn y telerau hyn mae "ni" yn cyfeirio at yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (**DCMS**) ac mae "chi" yn cyfeirio at y buddiolwr busnes bach a chanolig (BBaCh) neu breswyl (lle bo hynny'n berthnasol).

Mae'r fersiwn hon o'r telerau ac amodau hyn yn dod i rym o'r dyddiad a bennir ar dudalen glawr yr amodau a thelerau hyn. Rydych chi'n rhwym i'r fersiwn o'r telerau ac amodau hyn sydd mewn grym ar y dyddiad y bydd eich cyflenwr yn gofyn am daleb ar eich rhan.

Fe'ch hysbysir a yw'ch taleb yn Daleb Wledig (fel y'i diffinnir yn Atodlen 1) neu'n gymwys i gael cyllid ychwanegol. Os yw hyn yn wir, yna bydd amodau telerau eraill yn berthnasol fel yr amlygir isod ac fel y nodir yn Atodlenni 1 a 2.

1. **Ynglŷn â'm cysylltiad**

1.1 Er mwyn bod yn gymwys i dderbyn grant taleb, rhaid i chi gymryd cysylltiad band eang newydd sy'n cwrdd â rheolau'r Cynllun y cytunwyd arno gan eich cyflenwr ac sydd ar gael oddi wrth https://gigabitvoucher.culture.gov.uk. Yn ogystal, rhaid iddo o leiaf ddyblu eich cyflymder band eang cyfredol – i gael rhagor o fanylion gweler paragraff 4 isod.

1.2 Rhaid i'r contract ar gyfer gwasanaeth yr ydych yn ymrwymo iddo gyda'r cyflenwr o'ch dewis fod am o leiaf 12 mis, heb unrhyw gyfnodau am ddim.

1.3 Os ydych chi'n BBaCh sy'n gweithredu o sawl lleoliad gallwch ddefnyddio taleb i gefnogi cost mwy nag un cysylltiad hyd at werth taleb gymwys uchaf y Cynllun. Dim ond ar gyfer cysylltiadau cymwys mewn adeilad yr ydych chi'n masnachu ohono neu (yn achos buddiolwyr preswyl) yn byw y gellir defnyddio talebau. Efallai mai dyma'ch swyddfa gofrestredig a/neu gyfeiriad(au) masnachu yn achos buddiolwyr BBaCh.

1.4 Lle mae nifer o fusnesau'n gweithredu o'r un adeilad a rennir, rydym yn cadw'r hawl i gyfyngu ar nifer y buddiolwyr talebau yn yr adeilad.

1.5 Rydym yn cadw'r hawl i roi'r gorau i roi talebau unrhyw adeg cyn 31 Mawrth 2021 (pan fydd y Cynllun yn dod i ben).

1.6 Pan gytunwch i gymryd cysylltiad newydd gan eich cyflenwr gyda chefnogaeth taleb, rhaid i'ch cyflenwr anfon cais atom am daleb ar eich rhan gan ddefnyddio'r porth ar-lein a ddarperir gan y Cynllun. Rhaid i chi gytuno cyn pen 28 diwrnod trwy ymateb i e-bost fyddwn yn ei anfon i'r cyfeiriad e-bost rydych chi'n ei ddarparu i'ch cyflenwr. Os na roddwch eich cytundeb o fewn yr amser hwn gellir canslo cais eich cyflenwr am daleb ar eich rhan.

1.7 Rhaid gosod eich cysylltiad newydd cyn pen 12 mis ar ôl rhoi taleb. Os na all eich cyflenwr gyflwyno'ch cysylltiad newydd erbyn y dyddiad hwn, bydd y daleb yn dod i ben ac ni fydd y grant ar gael mwyach. Nid ydym yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am gostau cysylltiadau na chânt eu cyflwyno cyn pen 12 mis ar ôl cynnig taleb.

1.8 Nid yw'r cynnig taleb na'i ddyroddi na'i ddiffyg dyroddi yn unol â'r telerau ac amodau hyn yn effeithio ar y contract gwasanaeth yr ydych wedi'i dderbyn gyda'r cyflenwr o'ch dewis.

1.9 Dim ond pan fyddant yn rhan o brosiectau y cytunwyd arnynt gennym y caiff preswylwyr gymryd rhan yn y Cynllun ac elwa ar dalebau. At ddibenion y Cynllun ystyr "**preswylydd**" yw buddiolwr yn y DU nad yw'n fenter.

2. Ynglŷn â thalu fy nhaleb

2.1 Gwneir taliad am dalebau yn uniongyrchol i'ch cyflenwr, nid i chi na'ch busnes/sefydliad. Bydd eich cyflenwr yn ein hysbysu pan fydd eich cysylltiad wedi'i gyflwyno. Byddwn yn gwirio gyda chi bod y cysylltiad wedi'i gyflwyno cyn i ni dalu i'ch cyflenwr. Bydd gofyn i chi wneud datganiad bod y gwasanaeth newydd wedi'i osod a'i fod yn perfformio yn ôl y disgwyl. Os na wnewch y datganiad hwn, ni fyddwn yn gallu talu'ch taleb. Rhaid i chi ymateb i'n ceisiadau am wybodaeth cyn pen 28 diwrnod neu gellir canslo'ch taleb.

2.2 Ni ellir defnyddio'r daleb i dalu TAW yn achos buddiolwyr BBaCh. Ni ellir defnyddio'r daleb i gefnogi unrhyw gostau parhaus ar ôl gosod eich cysylltiad. **Gweler Atodlen 1 am drin Talebau Gwledig.**

2.3 Rydym wedi cytuno â'ch cyflenwr bod gan y daleb werth uchaf y gellir ei hawlio yn erbyn taliadau gosod cymwys eich cysylltiad. Uchafswm gwerth y daleb ar gyfer buddiolwr BBaCh yw £2,500 a'r isafswm gwerth yw £500. Lle bo hynny'n berthnasol, bydd gan dalebau preswyl werth o £500 (heb gynnwys TAW), a dim ond i dalu taliadau gosod £500 ynghyd â'r TAW cymwys ar y swm hwn y gellir defnyddio talebau, yn amodol ar gytundeb eich Cyflenwr â chi. Os ydych chi'n fuddiolwr i BBaCh a bod eich taliadau gosod yn uwch na £2,500 neu os ydych chi'n fuddiolwr preswyl a bod eich taliadau gosod yn uwch na £500 (heb gynnwys TAW), yna byddwch chi'n atebol am dalu'r gwahaniaeth i'r cyflenwr. Os yw'r taliadau gosod ar gyfer BBaCh a buddiolwyr preswyl yn is na £500 (heb gynnwys TAW) ni fydd eich cysylltiad yn gymwys i gael cymorth talebau. **Gweler Atodlenni 1 a 2 i drin Talebau Gwledig neu lle mae cyllid ychwanegol yn berthnasol.**

2.4 Mae talebau ar gyfer costau gosod a sefydlu unwaith ac am byth yn unig, fel y cytunwyd gyda'ch cyflenwr. Gall y costau hyn gynnwys ffioedd gosod; offer seilwaith allanol; taliadau adeiladu gormodol a gwaith peirianneg; a chostau sefydlu ac arolygu. Mae'r holl gyflenwyr cofrestredig wedi ymrwymo i set o delerau ac amodau sy'n nodi'n glir pa gostau gosod sy'n gymwys neu'n anghymwys o dan delerau'r Cynllun.

2.5 Ni ellir hawlio am offer cyfrifiadurol a TGCh o dan y Cynllun, nac ychwaith am daliadau refeniw am storio/gwneud copi wrth gefn/defnyddio cymwysiadau fel y rhai sydd ar gael trwy wasanaethau cwmwl.

2.6 Ni allwch elwa o daleb i gefnogi costau cysylltiad sydd gennych eisoes neu i ddisodli cysylltiad sydd eisoes yn gigadid-alluog. Ni ellir hawlio yn ôl unrhyw beth rydych chi'n ei wario cyn dyddiad eich cynnig taleb.

2.7 Ni all y Cynllun dalu am unrhyw daliadau canslo yr eir iddynt naill ai am derfynu contract presennol yn gynnar neu am daliadau canslo sy'n gysylltiedig â chynnig cyflenwr yr ydych yn dewis peidio â'i dderbyn.

3. Eich cyfrifoldebau

3.1 Rydych chi'n gyfrifol am ddarparu'r holl wybodaeth y gofynnir amdani yn rhesymol gennym ni neu'r corff lleol ar gyfer eich ardal y mae'r Cynllun yn berthnasol iddo cyn gynted ag sy'n ymarferol, gan gynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol a allai fod yn angenrheidiol at

ddibenion prosesu'ch taleb neu benderfynu ar swm eich dyfarniad neu eich cymhwysedd. Os na fyddwch yn ymateb i unrhyw gais rhesymol am wybodaeth o fewn 28 diwrnod efallai y byddwn yn penderfynu tynnu cynnig taleb yn ôl.

3.2 Rydych chi'n gyfrifol am wirio eich bod chi'n cwrdd â'r gofynion cymhwysedd ar gyfer y Cynllun. Gofynnir i chi hunan-ardystio eich bod yn cwrdd â meini prawf diffinio busnesau bach a chanolig[1] (lle bo hynny'n berthnasol) a'ch bod yn gymwys i dderbyn cyllid o dan Reoliad De Minimis.[2]

3.3 Os bydd angen i chi wneud hynny rhaid i chi ddarparu tystiolaeth o'ch statws fel busnes bach a chanolig neu unig fasnachwr. Mae'r ddogfennaeth y byddwn yn ei derbyn yn cynnwys: Cofrestriad TAW; Cofrestriad Elusennau: hysbysiad Cyllid a Thollau EM; rhif UTR masnachwr unig; ardystio corffori (cwmnïau cyfyngedig); cyfriflen cyfrif banc busnes a gyhoeddwyd o fewn y tri mis diwethaf; cyfeirnod ardrethi annomestig. Gall dogfennaeth arall, fel biliau cyfleustodau sy'n gysylltiedig â busnes, fod yn dderbyniol mewn rhai amgylchiadau os cânt eu cyfuno â dogfennaeth arall.

3.4 Nid yw paragraffau 3.2 a 3.3 yn berthnasol pan ddosberthir bod y buddiolwr yn "breswylydd".

3.5 Rydych yn cytuno i ddarparu gwybodaeth a chymorth rhesymol i gefnogi hyrwyddo'r Cynllun, gan gynnwys darparu gwybodaeth ar gyfer astudiaeth achos a chymryd rhan mewn unrhyw arolygon gwerthuso Cynllun.

4. Gofynion cysylltedd

4.1 Rhaid i bob cysylltiad a gefnogir gan dalebau gyflawni'r **DDWY** nodwedd ganlynol:

4.1.1 gallu darparu cysylltedd band eang i'ch adeilad ar neu uwchlaw 1Gbye uwchlwytho neu lawrlwytho gan ddefnyddio unrhyw dechnoleg ar adeg cyflwyno'r cysylltiad heb fod angen uwchraddio neu addasu caledwedd yn y dyfodol (ac eithrio CPE - nid yw'n orfodol defnyddio CPE 1Gbye-alluog o'r cychwyn os nad yw'n ofynnol i hyn ddarparu gwasanaeth); a

4.1.2 danfon o leiaf 30Mbit yr eiliad i'ch adeilad. Rhaid i'r gwasanaeth band eang wedi'i uwchraddio ddarparu "newid sylweddol" mewn gwasanaeth sydd o leiaf yn dyblu cyflymderau o'i gymharu â'r gwasanaeth rydych chi'n ei ddefnyddio ar hyn o bryd.

4.2 **NID** yw unrhyw gysylltiad presennol sydd eisoes yn 1Gbye-alluog neu uwch i'r naill gyfeiriad neu'r llall yn gymwys i elwa o daleb o dan y Cynllun. **NID** yw unrhyw Adeilad sy'n gallu derbyn cyflymder o>100Mb/ye (fel y penderfynir gennym ni) yn gymwys i elwa ar daleb o dan y Cynllun, p'un a yw'r cysylltiad hwnnw'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ai peidio.

4.3 Yn y telerau ac amodau hyn, mae cyflymderau'n uwchlwytho neu lawrlwytho ac nid o reidrwydd ar yr un pryd. Dim ond pan gânt eu cynnwys fel rhan o Becyn Cyn-Gofrestredig

[1] http://ec.europa.eu/regional_policy/sources/conferences/state-aid/sme/smedefinitionguide_en.pdf - Canllaw i fusnesau ynghylch diffiniad BBaCh

[2] Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1998/2006 ar 15 Rhagfyr 2006 ar gymhwyso Erthyglau 87 ac 88 o'r Cytuniad i gymorth de minimis, L 379/5, OJEU, 28 Rhagfyr 2006, yn: http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2006:379:0005:0010:en:PDF – canllaw ar gyfer terfynau de minimis

Prosiect y cytunwyd arno ac sy'n arwain at ddefnyddio ffibr llawn ychwanegol y caniateir technolegau diwifr.

4.4 Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y Cynllun, unwaith y bydd y cysylltiad terfynol wedi'i wneud â'ch adeilad a'ch bod yn cymryd gwasanaeth, rhaid i'r cyflenwr gadarnhau bod y seilwaith sy'n cefnogi ei wasanaeth yn gallu darparu cysylltedd 1Gb i chi cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl gorchymyn uwchraddio manwerthu/cyfanwerthu dilys (neu'r amserlen leiafswm y gellir ei chyflawni oherwydd cyfyngiadau rheoleiddio allanol) heb fod angen unrhyw uwchraddio cyfalaf/ seilwaith/offer goddefol ychwanegol (ac eithrio CPE).

5. **Amodau cyffredinol**

5.1 Ni ellir trosglwyddo talebau i fuddiolwyr neu eiddo eraill.

5.2 Nid ydym yn atebol mewn unrhyw ffordd am wallau defnyddwyr na defnydd anawdurdodedig o dudalennau gwe a deunyddiau cymhwysiad y Cynllun gan gyflenwyr neu fuddiolwyr.

5.3 Nid ydym yn atebol mewn unrhyw ffordd am wybodaeth anghyflawn, ffug neu gamarweiniol a roddir gan fuddiolwyr (gan gynnwys chi) neu gyflenwyr. Pan roddir gwybodaeth anghyflawn, ffug neu gamarweiniol, rydym yn cadw'r hawl i naill ai ganslo'r daleb neu adennill gwerth y daleb yn llawn.

5.4 Rydym yn cadw'r hawl i derfynu neu amrywio telerau'r Cynllun mewn unrhyw ffordd ar rybudd rhesymol. Yn ogystal â chael gwybod am unrhyw amrywiadau a wneir i delerau'r Cynllun, mae'r telerau cyfredol ar gael ar gais ar unrhyw adeg.

5.5 Rydym yn cadw'r hawl i ddod â'r Cynllun i ben unrhyw adeg.

5.6 Ni chaiff sefydliadau sector cyhoeddus (gan gynnwys ysgolion y wladwriaeth) elwa o'r Cynllun.

5.7 Ni chaiff ysgol sector preifat sy'n gweithredu rhwng 3 a 18 oed neu unrhyw sefydliad sy'n ymwneud yn llwyr â chynnig darpariaeth o dan y gofynion i bobl ifanc aros mewn addysg nes eu pen-blwydd yn 18 oed elwa o'r Cynllun.

5.8 Nid ydym yn cymeradwyo unrhyw gyflenwr neu gynnyrch penodol a dylech gynnal yr holl wiriadau arferol i fodloni eich hun o statws y cyflenwr ac addasrwydd y cynnyrch cyn gosod archeb yn uniongyrchol gyda'r cyflenwr o'ch dewis.

5.9 Nid ydym yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw waith cysylltu a wneir. Cyfrifoldeb y cyflenwr a ddewiswyd yw sicrhau bod y cysylltiad wedi'i osod yn gywir a heb golled na difrod. Dylech sicrhau eich hun bod y cysylltiad wedi'i osod yn gywir cyn cadarnhau bod eich gosodiad wedi'i gwblhau.

5.10 Rydych yn cytuno i ddarparu unrhyw wybodaeth a chymorth ychwanegol y bydd ei angen arnom yn rhesymol o bryd i'w gilydd mewn perthynas â gweithrediad y Cynllun. Gall hyn gynnwys (heb derfyn) darparu mynediad rhesymol i'ch adeilad neu rwydwaith at ddibenion gwneud gwiriadau cydymffurfio perthnasol gennym ni neu ein hasiantau.

5.11 Os derbyniwch unrhyw gais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (neu ddeddfwriaeth gyfatebol) sy'n ymwneud â'r Cynllun a/neu ni, byddwch yn darparu cais o'r fath i ni yn ddi-oed.

5.12 Bydd y telerau ac amodau hyn yn ddarostyngedig ac yn cael eu dehongli yn unol â chyfraith Lloegr ac yn ddarostyngedig i awdurdodaeth unigryw llysoedd Cymru a Lloegr.

6. Diogelu data

6.1 Os ydych yn fuddiolwr corfforaethol, byddwn ni a chithau yn cydymffurfio â'r holl ddeddfau diogelu data cymwys. Bydd unrhyw ddata personol (am eich gweithwyr, cynrychiolwyr cwmni neu fel arall) a ddarperir gennych yn cael ei ddefnyddio yn unol â'n datganiad preifatrwydd yn https://gigabitvoucher.culture.gov.uk/. Rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw weithdrefnau diogelu data ychwanegol a hysbyswyd gennym ni a sicrhau (a) eich bod wedi darparu ein datganiad preifatrwydd i weithwyr, cynrychiolwyr cwmnïau neu fel arall (fel sy'n berthnasol); a (b) bod yr holl hysbysiadau prosesu teg wedi'u rhoi a/neu, fel sy'n berthnasol, ceir cydsyniadau i'n galluogi i brosesu'r data perthnasol at ddibenion y Cynllun.

6.2 Bydd gennym hawl i'w gwneud yn ofynnol i chi gydymffurfio â pha bynnag ddarpariaethau ychwanegol y byddwn yn rhesymol yn penderfynu eu bod yn angenrheidiol er mwyn ein galluogi ni a chithau i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau priodol o dan Reoliad (EU) 2016/679 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 27 Ebrill 2016 ar amddiffyn pobl naturiol mewn perthynas â phrosesu data personol a diddymu Cyfarwyddeb 95/46/EC (Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol) OJ L 119/1, 4.5.2016 (sef y RhDDC).

6.3 Os ydych yn fuddiolwr preswyl, bydd unrhyw ddata personol a ddarperir gennych yn cael ei ddefnyddio yn unol â'n datganiad preifatrwydd yn https://gigabitvoucher.culture.gov.uk.

Atodlen 1 - Talebau Gwledig

Yn yr amodau a thelerau hyn mae "**Talebau Gwledig**" yn golygu talebau sy'n berthnasol i adeiladau gwledig o dan y rhaglen Cysylltedd Gigabit Gwledig (RGC) fel y penderfynir gennym ni (gweler y canllaw cymhwysedd a ddarperir yn nhudalennau https://gigabitvoucher.culture.gov.uk/home/who-is-eligible/ gwefan y Cynllun)

Mae'r telerau ac amodau hyn yn berthnasol i Dalebau Gwledig ar bob cyfrif, gyda'r eithriadau canlynol:

Mae paragraff 2.3 uchod yn cael ei ddisodli gan y canlynol: "Rydym wedi cytuno â'ch cyflenwr bod gan y daleb werth uchaf y gellir ei hawlio yn erbyn taliadau gosod cymwys eich cysylltiad. Uchafswm gwerth y daleb ar gyfer buddiolwr BBaCh yw £3,500 ac isafswm y gwerth yw £500. Bydd gan dalebau preswyl werth uchaf o £1,500 ac isafswm gwerth o £500 (gan gynnwys TAW). Os ydych chi'n fuddiolwr BBaCh a bod eich taliadau gosod yn uwch na £3,500 neu os ydych chi'n fuddiolwr preswyl sydd â'ch taliadau gosod yn uwch na £1,500 (gan gynnwys TAW), yna byddwch yn atebol am dalu'r gwahaniaeth i'r cyflenwr. Os yw'r taliadau gosod ar gyfer BBaCh a buddiolwyr preswyl yn is na £500 (gan gynnwys TAW) ni fydd eich cysylltiad yn gymwys am gefnogaeth talebau."

Gelwir prosiectau gyda thalebau mewn ardaloedd gwledig cymwys yn **Brosiectau RG**C.

Atodlen 2 - Cyllid Ychwanegol

Mae'r telerau ac amodau hyn yn berthnasol pan ydych yn fuddiolwr mewn perthynas â'r prosiectau perthnasol a nodir isod ar bob cyfrif, ac eithrio bod gwerthoedd y daleb mewn perthynas â'r prosiectau perthnasol fel y nodir isod.

	Prosiectau	**Cyllid Ychwanegol**
1.	Prosiectau Cymraeg (14 Mai 2020, nodwch fod ceisiadau am dalebau ar gyfer y prosiectau hyn wedi cau)	Mae gwerth y daleb i: 1. Buddiolwyr BBaCh rhwng £500 a £5,500; a 2. Buddiolwyr preswyl rhwng £600 a £960 (gan gynnwys TAW), ym mhob achos tra bo cyllid talebau yn parhau i fod ar gael.
2.	Prosiectau RGC yng Nghymru	Mae gwerth y daleb i: 1. Buddiolwyr BBaCh Prosiectau RGC yng Nghymru yn £500 i £7,000 (heb gynnwys TAW), ar yr amod bod uchafswm gwerth y daleb o £7,000 yn berthnasol dim ond os pan ofynnir am y daleb bod y cyflymder band eang sydd ar gael yn yr eiddo ar lai na 30 Mbye (fel y penderfynir gan DCMS ac a yw'r cysylltiad perthnasol yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ai peidio). Fel arall, gwerth y daleb fydd rhwng £500 a £3,500 (gan gynnwys TAW); a 2. Buddiolwyr preswyl Prosiectau RGC yng Nghymru yn £500 i £3,000 (gan gynnwys TAW), ar yr amod bod uchafswm gwerth y daleb o £3,000 yn berthnasol dim ond os pan ofynnir am y daleb fod y cyflymder band eang sydd ar gael yn yr eiddo yn llai na 30 Mbye (fel y penderfynir gan DCMS ac a yw'r cysylltiad perthnasol yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ai peidio). Fel arall, gwerth y daleb fydd rhwng £500 a £1,500 (heb gynnwys TAW).
3.	Prosiectau Caint	Mae gwerth y daleb i: 1. Buddiolwyr BBaCh Prosiectau RGC yng Nghaint yn £500 i £3,500; 2. Buddiolwyr preswyl Prosiectau RGC yng Nghaint yn £500 i £2,500 (gan gynnwys TAW), ar yr amod bod uchafswm gwerth y daleb o £2,500 yn berthnasol dim ond os ar yr adeg y gofynnir am y daleb: (i) bod yr eiddo yn fwy na thair (3) mlwydd oed; a (ii) bod y cyflymder band eang sydd ar gael yn yr eiddo yn llai na 30 Mbye (fel y penderfynir gan DCMS ac a yw'r cysylltiad perthnasol yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ai peidio). Fel arall, gwerth y daleb fydd rhwng £500 a £1,500 (gan gynnwys TAW);

	Prosiectau	Cyllid Ychwanegol
		3. Buddiolwyr BBaCh yng Nghaint (nad ydynt yn ymwneud â Phrosiectau RGC) yn £500 i £2,500; a 4. Buddiolwyr preswyl yng Nghaint (nad ydynt yn ymwneud â Phrosiectau RGC) yn £600 (gan gynnwys TAW) neu £500 (heb gynnwys TAW), ym mhob achos tra bo cyllid talebau yn parhau i fod ar gael.
4.	Prosiectau RGC Partneriaeth y Gororau	Mae gwerth y daleb i: 1. Buddiolwyr BBaCh Prosiectau RGC ym Mhartneriaeth y Gororau yn £500 i £7,000 (heb gynnwys TAW), ar yr amod bod uchafswm gwerth y daleb o £7,000 yn berthnasol dim ond os pan ofynnir am y daleb bod y cyflymder band eang sydd ar gael yn yr eiddo yn llai na 30 Mbye (fel y penderfynir gan DCMS ac a yw'r cysylltiad perthnasol yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ai peidio). Fel arall, gwerth y daleb fydd rhwng £500 a £3,500 (gan gynnwys TAW); a 2. Buddiolwyr preswyl Prosiectau RGC ym Mhartneriaeth y Gororau yn £500 i £3,000 (gan gynnwys TAW), ar yr amod bod uchafswm gwerth y daleb o £3,000 yn berthnasol dim ond os pan ofynnir am y daleb bod y cyflymder band eang sydd ar gael yn yr eiddo yn llai na 30 Mbye (fel y penderfynir gan DCMS ac a yw'r cysylltiad perthnasol yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ai peidio). Fel arall, gwerth y daleb fydd rhwng £500 a £1,500 (heb gynnwys TAW).
5.	Prosiectau RGC yng Ngorllewin Sussex	Mae gwerth y daleb i: 1. Buddiolwyr BBaCh Prosiectau RGC yng Ngorllewin Sussex yn £500 i £4,000 (heb gynnwys TAW); a 2. Buddiolwyr preswyl Prosiectau RGC yng Ngorllewin Sussex yn £500 i £4,000 (gan gynnwys TAW).